Y wiwerod llwyd

Parchu Eraill / Cyfeillgarwch

Yn y berllan roedd teulu o wiwerod llwyd yn byw. Mam a dad a thair gwiwer fechan. Un diwrnod roedd y tair gwiwer fechan yn chwarae ymhen draw'r berllan. Dyna lle roedden nhw'n dringo un goeden a neidio i goeden arall. Ar ôl bod wrthi am fore cyfan yn chwarae fel hyn pwy ddaeth heibio tua amser cinio ond wiwer goch oedd yn byw ynghanol y coed pîn. Roedd hi'n debyg i'r wiwerod llwyd ond roedd ei chot yn goch.
"Pwy wyt ti?" meddai un o'r wiwerod llwyd wrthi.
"Wiwer goch ydw i," meddai hithau, "mi fuaswn i'n hoffi chwarae efo chi yn y berllan," meddai.
Dechreuodd y tair wiwer lwyd sibrwd wrth ei gilydd. Ar ôl munud neu ddau penderfynodd y tair nad oedden nhw am chwarae efo'r wiwer goch.
"Fe gei di chwarae ar dy ben dy hun," meddai'r tair efo'i gilydd.
Doedd gan y wiwer goch neb i chwarae ac felly roedd hi'n teimlo'n unig iawn.
Un diwrnod daeth hen gi cas i'r berllan a phan welodd y wiwerod llwyd dechreuodd redeg ar eu holau. Rhedodd ar ôl un o'r wiwerod, allan o'r berllan, ar draws y cae ac i'r goedwig dywyll. Syrthiodd cangen drom ar y wiwer fach ac yno y bu hi drwy'r nos. Roedd hi wedi anafu ei hun ac roedd hi ofn ac yn oer.
Y diwrnod wedyn roedd y wiwer goch yn mynd am dro ar hyd y goedwig. Yn sydyn clywodd sŵn gwichian ysgafn. Cerddodd yn araf tuag at y sŵn. Roedd hi'n adnabod y wiwer lwyd. Roedd hi'n cofio ei gweld gyda'i brawd a'i chwaer yn chwarae yn y berllan.
Ac meddai'r wiwer goch wrthi, "wyt ti eisiau help?"
Ceisiodd ei gorau glas i godi'r gangen oedd wedi syrthio ar y wiwer lwyd. Bu wrthi'n bustachu am oriau ond roedd y gangen rhy drom iddi. Bob tro roedd yn ceisio ei chodi roedd hi'n

syrthio'n ôl ar y wiwer lwyd.
Doedd dim i'w wneud ond rhedeg am ei bywyd i'r berllan i ddweud wrth deulu'r wiwer lwyd ble roedd hi.
"Ble mae hi?" gofynnodd tad y wiwer lwyd.
"Mae hi'n y goedwig ac mae yna gangen drom wedi syrthio arni. Dowch i gyd i helpu," meddai'r wiwer goch.
Rhedodd y fam, y tad a'r ddwy wiwer nerth eu traed o'r berllan, ar hyd y caeau ac i'r goedwig dywyll. Roedd y wiwer goch yn gwybod yn iawn lle roedd hi. Fuo nhw fawr o dro â chodi'r gangen a daeth y wiwer lwyd yn rhydd. A dyma deulu'r wiwerod llwyd yn carlamu am adref i'r berllan.
Byth ers hynny mae'r wiwerod llwyd wrth eu boddau'n gweld y wiwer goch yn dod draw atyn nhw o'r goedwig dywyll. Bydd hi'n cael croeso mawr gan y teulu i gyd. Maen nhw'n cofio ei bod wedi helpu y wiwer fach lwyd pan oedd arni angen help ar ôl i'r gangen fawr drom syrthio arni yn y goedwig dywyll.

Wnei di fy nysgu, O Dduw, i fod yn garedig wrth bawb, hyd yn oed y rhai nad ydw i'n eu hoffi. Amen.

✦ Sut wiwer oedd y wiwer goch? Pa eiriau fuasech chi'n eu defnyddio i'w disgrifio?
✦ Chwiliwch am hanes y wiwer goch yng Nghymru. Ydi hi'n brin erbyn heddiw?